**Cofnodion o gyfarfod Cyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru (HCC) a gynhaliwyd am 9.30am Yn Nhŷ Rheidol, Aberystwyth ddydd Iau 17 Tachwedd 2022**

**Yn Bresennol:** Cath Smith (Cadeirydd)
Melody Chapman (trwy gyfrwng Teams), John T Davies, Rhys Davies, Jack Evershed, Prys Morgan, Emlyn Roberts a Claire Williams

**Trwy Wahoddiad:** Maria Richards (Llywodraeth Cymru)

**Swyddogion Gweithredol yn bresennol:** Gwyn Howells (Prif Weithredwr)
Julie Davies-Jones (Ysgrifenyddiaeth)
Kirsten Smith (Swyddog Gweithredol Cig Coch) – Eitemau 6 & 7
Jon Parker (Pennaeth Darpariaeth y Gadwyn Gyflenwi)
Laura Pickup (Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau)
Bryan Regan (Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol)

1. **Croeso a Sylwadau'r Cadeirydd**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a rhoddodd ddiweddariad am y prif ddigwyddiadau a chyfarfodydd y bu'n eu mynychu yn ddiweddar:

6 Hydref 2022 – Cyfarfod o Fwrdd HCC

15 – 18 Hydref 2022 – SIAL, Paris

Cinio Blynyddol Sioe Laeth Undeb Amaethwyr Cymru, Caerfyrddin

26 Hydref 2022 – Diweddariad Teams ar gyfer Bwrdd HCC

27 Hydref 2022 – Cyfarfod o Grŵp HCC i Gysylltu â'r Diwydiant

3 Tachwedd 2022 – Mynychu cynhadledd NFU Cymru yn Llandrindod ynghyd â'r Prif Weithredwr a Phennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol

10 Tachwedd 2022 – Cynhadledd Flynyddol HCC, Canolfan yr Aelodau, Maes Sioe Frenhinol Cymru, Llanfair-ym-Muallt

Cyfarfodydd hwyrol i drafod yr Ardoll:

14 Tachwedd 2022 – Fferm Coleg Gelli-aur, Caerfyrddin

15 Tachwedd 2022 – Gwesty'r Manor, Caerfyrddin

16 Tachwedd 2022 – Cyfarfod cynllunio Bwrdd HCC

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Nodwyd ymddiheuriadau gan Aelodau'r Bwrdd, Gareth Wynn Davies a Huw Davies, a Phennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol, Rachael Madeley-Davies.

3. **Datganiadau o Fuddiannau**

Nid oedd unrhyw Ddatganiadau o Fuddiannau newydd.

4. **I gymeradwyo cofnodion:**

a. *Cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 6 Hydref 2022 (HCC 1097)*

Cymerwyd bod cofnodion y cyfarfodydd uchod wedi eu darllen, cawsant eu derbyn gan y Bwrdd a'u llofnodi gan y Cadeirydd yn amodol ar yr ychwanegiad a ganlyn:

Tudalen 4, Eitem 8 – I dderbyn diweddariad am y broses ymgynghori ynghylch y bwriad i gynyddu'r Ardoll (HCC 1094):

I nodi y byddai cysylltiad uniongyrchol hefyd â'r proseswyr allweddol yng Nghymru fel rhan o ddialog HCC gyda'r diwydiant.

b. *Cyfarfod diweddaru Teams y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Mercher 26 Hydref 2022 (HCC 1098)*

Cymerwyd bod cofnodion y cyfarfodydd uchod wedi eu darllen, cawsant eu derbyn gan y Bwrdd a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

5. **Materion yn codi o Eitemau 4a a 4b uchod**

4a – Dydd Iau 6 Hydref 2022 - Cyfarfod Bwrdd

*Adolygiad Diwedd-Blwyddyn o Gynllun Gweithredol HCC 2021 / 2022*

Rhoddwyd diweddariad ynglŷn â'r uchod.

*Arolwg HCC o Fwriad Ffermwyr*

Nodwyd bod y gwaith o ddadansoddi canlyniadau'r arolwg yn parhau a cheid adroddiad am y rhain maes o law.

**Gweithredu: Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol**

*Gwerthusiadau Bwrdd HCC*

Nodwyd bod gwerthusiadau'r Bwrdd wedi eu cwblhau a diolchwyd y Bwrdd gan y Cadeirydd am ei gyfranogiad.

Byddai gwerthusiad y Cadeirydd yn digwydd maes o law.

4b Cyfarfod dydd Mercher 26 Hydref 2022

Nid oedd unrhyw fater yn codi o'r uchod.

6. **<u>I ystyried yr adolygiad chwe misol o berfformiad Cynllun Gweithredol HCC 2021 / 2022 yn ôl Dangosyddion Perfformiad Allweddol (HCC 1099)</u>**

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen a chafodd ei gyflwyno gan y Swyddog Gweithredol Cig Coch.

Roedd y ddogfen yn amlinellu perfformiad HCC yn ôl targedau (pan oedd yn briodol i fesur) yn ôl Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer chwe mis cyntaf blwyddyn ariannol 2022 / 2023.

Nid oedd unrhyw bryderon o bwys i dynnu sylw atynt, ac ar ôl trafodaeth roedd y Bwrdd yn fodlon â'r sefyllfa bresennol a gâi ei hadolygu'n barhaus gan y Swyddogion Gweithredol.

7. **<u>Y broses gynllunio ar gyfer Cynllun Busnes HCC 2021 / 2026 a Chynllun Gweithredol HCC 2023 / 2024</u>**

Cynhaliwyd cyfarfod cynllunio defnyddiol rhwng y Bwrdd a'r Swyddogion Gweithredol ar 16 Tachwedd 2022.

Diolchodd y Prif Weithredwr i bawb am gymryd rhan a thynnodd sylw at y ffaith y byddai'r Pwyllgor Gwaith yn symud ymlaen yn awr, o ganlyniad i drafodaethau o'r cyfarfod cynllunio cychwynnol, i adolygu'r strwythur ddarparu, y themâu craidd a'r canlyniadau cyn drafftio'r cynlluniau i'r Bwrdd eu hystyried yn y cyfarfod ar 12 Ionawr 2023. Roedd gofyniad i ystyried sut y gellid cysoni Dangosyddion Perfformiad Allweddol / mesuriadau ymhellach â chanlyniadau mewn modd strategol. Rhoddid ystyriaeth hefyd i ddatblygu strwythur adrodd newydd ar gyfer y Cynllun Gweithredol.

Byddai'r gwaith hwn yn cael ei symud ymlaen gan y Prif Weithredwr gyda'r Swyddogion Gweithredol a chytunwyd i gael cyfarfod Teams i ddiweddaru'r Bwrdd am ddatblygiadau ganol mis Rhagfyr 2022.

**Gweithredu: Prif Weithredwr / Ysgrifenyddiaeth**

Ymadawodd y Swyddog Gweithredol Cig Coch â'r cyfarfod.

8. **<u>Adroddiadau HCC</u>**

a. *<u>Gweithgareddau (HCC 1100)</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd a chafodd gweithgareddau allweddol HCC eu hamlygu gan y Swyddogion Gweithredol.

b. *<u>Crynodeb o Fwletin y Farchnad (HCC 1101)</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen.

c. *<u>Ariannol – Incwm a Gwariant a'r Fantolen tan 30 Medi 2022 (HCC 1102)</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen gan y Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol.

Nodwyd bod ffigurau'r Ardoll, hyd yma yn ystod y flwyddyn, yn is na'r gyllideb, ond nad oedd unrhyw faterion i bryderu yn eu cylch ar hyn o bryd.

d. *I dderbyn diweddariad ynghylch Sgwrs HCC â Rhanddeiliaid am yr Ardoll*

Roedd y broses o ymgysylltu â Rhanddeiliaid wedi dechrau gyda chyfarfodydd agored a gynhaliwyd ar Fferm Coleg Gelli-aur (14 Tachwedd 2022) ac yng Ngwesty'r Manor, Crucywel (15 Tachwedd 2022).

Hyd yma, cafwyd trafodaethau adeiladol ac roedd yn ymddangos fod y bwriad i newid y mecanwaith a chynyddu'r Ardoll yn cael ei dderbyn a'i gefnogi yn gyffredinol.

Y cyfarfodydd eraill oedd y rhai a ganlyn:

22 Tachwedd 2022 – Coleg Amaethyddol Glynllifon, Caernarfon
28 – 29 Tachwedd 2022 – Ymgysylltu yn y Ffair Aeaf
5 Rhagfyr 2022 – Coleg Cambria, Rhuthun
7 Rhagfyr 2022 – Ar-lein trwy Zoom.

Byddai adroddiad dadansoddi o'r broses ymgysylltu yn cael ei baratoi a'i rannu gyda'r Bwrdd maes o law.

**Gweithredu: Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol**

e. *I dderbyn adborth am Gynhadledd Flynyddol HCC 2022*

Dywedodd y Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau fod yr adborth a gafwyd mewn perthynas â chynhadledd HCC wedi bod yn gadarnhaol dros ben.

Cafodd y Swyddog Gweithredol longyfarchiadau'r Cadeirydd a'r Bwrdd am drefnu'r gynhadledd eleni.

f. *I dderbyn diweddariad am bresenoldeb HCC yn Ffair Aeaf 2022*

Roedd trefniadau ar y gweill ar gyfer presenoldeb HCC yn y Ffair Aeaf eleni.

Roedd rhaglen o weithgareddau yn cael ei pharatoi, gan gynnwys y brecwast blynyddol yn Hafod a Hendre gyda'r Gweinidog yn bresennol.

Roedd y gweithgareddau a gynlluniwyd ar gyfer y stondin yn cynnwys arddangosiadau cigyddiaeth, canlyniadau a sesiynau blasu o Brosiect Ansawdd Cig Cig Oen Cymru y Rhaglen Datblygu Cig Coch, nifer o arddangosiadau coginio, rhannu canlyniadau prosiect BeefQ ac arddangosiad torri carcas.

g. *Digwyddiadau i ddod (HCC 1103)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen.

9. **Pwyllgorau HCC**

Y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg

a. *<u>I dderbyn adroddiad llafar a mabwysiadu'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a gynhaliwyd ddydd Mercher 2 Tachwedd 2022 (HCC 1104)</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen a rhoddwyd crynodeb o'r pwyntiau allweddol gan Aelod o'r Bwrdd, Jack Evershed, yn absenoldeb Gareth Wynn Davies, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg.

- Adolygwyd Cylch Gorchwyl y Pwyllgor ac ni chynigiwyd unrhyw newidiadau.
- Cyflwynwyd dogfen Llywodraethiant HCC wedi ei fireinio i'r Pwyllgor. Roedd y ddogfen ddiwygiedig bellach yn gliriach ac yn fwy cryno ac yn darparu mwy o wybodaeth am ddeall gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol HCC a'r polisïau sydd ar waith. Byddai crynodeb o'r ddogfen yn cael ei baratoi a'i rannu gyda'r Bwrdd.

**Gweithredu: Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol**

- Cafwyd cyflwyniad gan Archwilio Cymru ynghylch canfyddiadau archwiliad o Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon HCC ar gyfer 2021 / 2022. Nodwyd dau gamddatganiad. Byddai'r rhain yn cael eu cywiro ac nid oedd achos pryder. Nodwyd bod Archwilio Cymru yn bwriadu cyhoeddi archwiliad diamod i HCC a chafodd ei gymeradwyo gan y Bwrdd.
- Adolygwyd y Gofrestr Risg gan y Pwyllgor ac ni chynigiwyd unrhyw newidiadau. Roedd trafodaeth wedi'i chynnal ynghylch risg O1 yn ymwneud â statws TAW HCC. Dywedodd y Prif Weithredwr wrth y Bwrdd fod trafodaethau yn cael eu cynnal ar hyn o bryd gyda Chyllid a Thollau Ei Fawrhydi ar y mater hwn. Cynhaliwyd cyfarfod wyneb yn wyneb cychwynnol rhwng Swyddogion Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi, y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol ar 15 Tachwedd 2022. Roedd y Prif Weithredwr wedi gofyn i CThEM roi cynnig i HCC ynghylch y rhesymeg na fyddai HCC yn gallu hawlio TAW ar ei weithgareddau.
- Cai'r Bwrdd ei ddiweddaru drwy'r amser am unrhyw ddatblygiadau.
- Cafwyd cyflwyniad gan yr archwilwyr mewnol penodedig i'r Pwyllgor ar yr adroddiad Archwilio Mewnol.
- Nid oedd unrhyw faterion i'w hadrodd o ran Rheoli Credyd.

b. *<u>I dderbyn crynodeb o'r pwyntiau allweddol yn y Datganiadau Ariannol 2021 / 2022 (HCC 1105)</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen a'i grynhoi gan y Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol.

c. *<u>I dderbyn a chymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol ar gyfer 2021 / 2022 (HCC 1106)</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen.

Ar sail yr uchod a'r argymhelliad i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Risg, roedd y Bwrdd yn fodlon cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a

Datganiadau Ariannol ar gyfer 2021/2022 a diolchodd i Lywodraeth Cymru am eu cymorth.

Yn ogystal â'r uchod ac at ddibenion Llywodraethiant, cadarnhaodd y Bwrdd, a benodwyd yn Gyfarwyddwyr Anweithredol, fod y manylion yn y Datganiadau Ariannol mewn perthynas â'u datganiadau unigol yn gywir ac nad oedd angen gwneud newidiadau.

Byddai'r Pwyllgor Gwaith yn symud ymlaen i ffeilio llythyr cynrychiolaeth a'r Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol ar gyfer 2021 / 2022 gydag Archwilio Cymru.

**Gweithredu: Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol**

Y Gweithgor Iechyd Diadelloedd a Buchesi (FHHWG)

d. *I dderbyn adroddiad llafar a mabwysiadu'r cofnodion o gyfarfod y Gweithgor Iechyd Diadelloedd a Buchesi (FHHWG) a gynhaliwyd ddydd Mercher 26 Hydref 2022 (HCC 1107)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen, a chafodd ei fabwysiadu gan y Bwrdd.

Defnyddiwyd y cofnodion yn adroddiad i'r Bwrdd heb unrhyw faterion yn codi.

Y Grŵp Ymgysylltu â'r Diwydiant

e. *I dderbyn adroddiad llafar a mabwysiadu'r cofnodion o gyfarfod y Grŵp a gynhaliwyd ddydd Iau 27 Hydref 2022 (HCC 1108)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen, a chafodd ei fabwysiadu gan y Bwrdd.

Defnyddiwyd y cofnodion yn adroddiad i'r Bwrdd heb unrhyw faterion yn codi.

Y Pwyllgor Ymchwil a Datblygu a Chyfnewid Gwybodaeth (R&D&KE)

f. *I dderbyn adroddiad llafar am gyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ddydd Mercher 16 Tachwedd 2022*

Cafwyd crynodeb o'r uchod gan Gadeirydd y Pwyllgor.

Byddai adolygiad o strwythur Pwyllgorau HCC yn cael ei gynnal gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn y flwyddyn newydd a byddai'n ystyried y newidiadau i'r cynlluniau Busnes a Gweithredu a phenodiadau newydd i'r Bwrdd.

**Gweithredu: Y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr**

10. **Papur er gwybodaeth: Datganiadau Ariannol EIDCymru am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2022 (HCC 1109)**

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen.

11. **Unrhyw fater arall**

Diweddariad ar newidiadau i ofynion cyn-allforio o 13 Rhagfyr 2022 – statws cyfredol trafodaethau gyda DEFRA a goblygiadau.

Nodwyd bod datrysiad dros dro ar gyfer estyniad o 12 mis i'r uchod wedi'i gyhoeddi i ganiatáu digon o amser i Defra gydymffurfio â gofynion allforio'r Undeb Ewropeaidd.

*Partneriaeth Ardystiad Allforio y DG (UKECP)*

Cafodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am delerau'r gwasanaeth a ddarperir.

12. **Dyddiadau cyfarfodydd i ddod**

Cyfarfod diweddaru cynllunio Bwrdd HCC trwy Teams – amserlen ar gyfer canol mis Rhagfyr 2022

**Gweithredu: Yr Ysgrifenyddiaeth**

2023

Cyfarfod o Fwrdd HCC – Dydd Iau 12 Ionawr 2023.
Diweddariad Bwrdd HCC drwy Teams – Dydd Iau 2 Chwefror 2023 am 9.30am.

**Llofnodwyd…………………………….**
**Cadeirydd HCC**